**Bwrdd Cynghori Taith – Cyfarfod Eithriadol**
**20 Mai 2022, 10.00-13.00**
**Cyfarfod Hybrid (wyneb yn wyneb ac ar Teams)**

**Yn bresennol (Aelodau'r Bwrdd Cynghori a Chynrychiolwyr Cyrff Trefnu Sectorau):**

- Kirsty Williams, Cadeirydd Bwrdd Cynghori Taith, (KW)
- Joe Atkinson, UCM Cymru (JA)
- Steve Davis, Grŵp Prif Swyddogion Ieuenctid yr Awdurdodau Lleol (SD)
- Helen Jones, Cyngor Cymreig y Gwasanaethau Ieuenctid Gwirfoddol (HJ)
- John Nash, Ffederasiwn Hyfforddiant Cenedlaethol Cymru (JN)
- Calum White, Llywodraeth Cymru (CW)
- Colin Riordan, Prifysgol Caerdydd (CR)
- Colin McInnes, Addysg Uwch Cymru Brwsel (CM)
- Delyth Lewis, Senedd Ieuenctid Cymru (DL)
- Harriet Barnes, Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru (HB)
- Siân Holleran, ColegauCymru (SH)
- Rob Humphreys, Sefydliad Dysgu a Gwaith Cymru (RH)
- Amanda Morgan, Cysylltiadau Rhyngwladol (AC)
- Paul Glaze, Cyngor Cymreig y Gwasanaethau Ieuenctid Gwirfoddol (PG)

**Dirprwyon:**

- Elin Forsyth (EF) yn lle Gareth Morgans, Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru/Cymdeithas Cyfarwyddwyr Addysg Cymru
- Jenny Scott (Presenoldeb rhithwir) (JS) yn lle Iwan Davies, Cymru Fyd-eang
- Katy Davenport (KD) yn lle Maria Hinfelaar, Prifysgol Glyndŵr Wrecsam
- Gwen Williams (presenoldeb rhithwir) yn lle Amanda Wilkinson, Prifysgolion Cymru (GW)

**Ymddiheuriadau:**

- Amanda Wilkinson, Prifysgolion Cymru
- Gareth Morgans, Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru/Cymdeithas Cyfarwyddwyr Addysg Cymru
- Iwan Davies, Cymru Fyd-eang
- Maria Hinfelaar, Prifysgol Glyndŵr Wrecsam

**Swyddogion Gweithredol Rhaglen Taith:**

- Susana Galván, Cyfarwyddwr Gweithredol (SG)
- Elid Morris, Pennaeth Gweithrediadau (ME)
- Nabil Ali, Rheolwr Datblygu Polisïau (NA)
- Simona Cavani, Rheolwr Rhaglenni, Addysg Uwch (SC)
- Ellie Bevan, Rheolwr Rhaglenni, Ysgolion ac Ieuenctid (EB)
- Walter Brooks, Rheolwr Rhaglenni, Addysg Bellach, Addysg a Hyfforddiant Galwedigaethol ac Addysg i Oedolion (WB)

**Gwahoddwyd:**

- Daniel Taylor, Good Governance Institute (DT) (Eitem 6)
- Mark Butler, Good Governance Institute (MB) (Eitem 6)

**Cofnodion**: Claire Richardson, Swyddog Gweithredol Rhaglenni Taith

| **Eitem** | **Prif bwyntiau i'w trafod** | **Camau gweithredu/Penderfyniadau allweddol** |
|---|---|---|
| **Croeso a chyflwyniadau Ymddiheuriadau oherwydd absenoldeb** | Croesawyd yr holl westeion i gyfarfod arbennig y Bwrdd Cynghori, a oedd yn cynnwys aelodau'r Bwrdd Cynghori, cynrychiolwyr o'r Cyrff Trefnu Sectorau (SOB), yn ogystal ag aelodau ychwanegol o dîm Taith. Roedd gwesteion a wahoddwyd o'r Good Governance Institute yn bresennol hefyd.<br>Nodwyd yr ymddiheuriadau a'r sawl a oedd yno yn lle aelodau eraill. | |

| | | |
|---|---|---|
| **Diweddariad byr gan Fwrdd Gweithredol Rhaglen Taith** | Ar ddechrau'r cyfarfod, cafwyd diweddariad ynghylch sut mae Taith yn datblygu, a rhoddwyd gwybod i'r sawl a oedd yn bresennol bod y Llythyrau Dyfarnu Grant (GAL) bellach yn eu lle o ran y SOB a rhoddwyd ymddiheuriad am yr oedi.<br><br>Mewn perthynas â cheisiadau Llwybr 1, nodwyd bod aseswyr yn cael eu penodi i adolygu'r ceisiadau hyn a bod hyfforddiant wedi'i drefnu ar gyfer dechrau mis Mehefin. Cadarnhawyd y bydd gan yr aseswyr a benodir wybodaeth sy'n benodol i'r sector i gwmpasu pob sector.<br><br>Darparwyd manylion am y cyllid ar gyfer Cymru Fyd-eang III a gadarnhawyd cyn y cyfarfod hwn gan y Gweinidog. Daw hyn o amlen ariannu Taith ac, o'r herwydd, bydd Cymru Fyd-eang yn adrodd i Taith. Bydd Cymru Fyd-eang III yn cynnwys Addysg Uwch yn ogystal ag Addysg Bellach.<br><br>Y pwnc olaf yn y rhan hon oedd trafodaeth i sicrhau bod yr holl randdeiliaid yn ymwybodol o roi adborth ar Taith, ac yn teimlo'n gyfforddus i wneud hynny, nid yn unig ar y cynigion ar gyfer Llwybr 2 ond hefyd i roi eu barn ar Lwybr 1 yn ogystal ag unrhyw agwedd arall ar Taith. | **Anogir cyrff SOB ac aelodau'r Bwrdd Cynghori i roi adborth parhaus am Taith: y rhaglen, y broses gyflwyno a'r prosesau. Mae Taith yn croesawu adborth ac arbenigedd y sectorau i wneud y rhaglen yn llwyddiant, a bod y sectorau'n arwain cymaint â phosibl.** |
| **Ein myfyrdodau cyffredinol am Taith hyd yn hyn** | Yn dilyn y diweddariad am Taith, cafwyd y cyfle i fyfyrio, ac roedd yn gyfle i'r rheini a oedd yn bresennol drafod eu barn am Taith, gan ystyried yr agweddau da a negyddol fel ei gilydd. Anfonwyd cwestiynau i'r rheini a oedd yn bresennol cyn y cyfarfod er mwyn iddynt allu rhoi adborth.<br><br>Cafwyd sylwadau adeiladol a fydd yn cael eu bwydo i mewn i adolygiad mwy ffurfiol ac a gaiff eu hystyried os bydd newidiadau yn y dyfodol.<br><br>Atgoffwyd aelodau'r Bwrdd Cynghori bod y rhaglen yn gyfyngedig i'r polisi a bennir gan y Gweinidog, ond y dylai'r Bwrdd Cynghori barhau i roi adborth ar eu syniadau a'u safbwyntiau fel y gellir bwydo'r rhain yn ôl i Lywodraeth Cymru fel y bydd modd eu hystyried ar gyfer datblygiadau yn y dyfodol. | **Bydd Taith yn parhau i gasglu adborth gan y sectorau. Bydd proses adolygu/adborth fwy ffurfiol yn digwydd unwaith y cyhoeddir canlyniadau Llwybr 1.** |

| | | |
|---|---|---|
| **Cynlluniau ar gyfer Llwybrau 2** | Un o agweddau allweddol y cyfarfod oedd ystyried y cynlluniau arfaethedig ar gyfer Llwybr 2 sy'n edrych ar bartneriaethau a chydweithio strategol. Rhoddwyd trosolwg o Lwybr 2 i egluro sut y bydd Llwybr Taith 2 yn cefnogi prosiectau strategol, cydweithio neu bartneriaethau drwy ariannu partneriaethau neu gonsortia rhyngwladol dwyochrog dan arweiniad sefydliadau cymwys yng Nghymru a fydd yn arwain at greu allbynnau deallusol fydd yn eu tro yn meithrin arloesedd ym maes addysg a hyfforddiant yng Nghymru neu'n arwain at gryfhau neu fynd i'r afael â rhwystrau rhag cymryd rhan yn Llwybr Taith 1. Rhoddwyd rhagor o wybodaeth am y strategaeth ar gyfer Llwybr 2 yn ogystal ag enghreifftiau o brosiectau Llwybr 2 a'u hallbynnau.<br><br>Cynigiwyd Medi 2022 yn ddyddiad arfaethedig i agor yr alwad ariannu ar gyfer y llwybr hwn.<br><br>Darparwyd copi o bapur Llwybr 2 i bawb a oedd yn bresennol. Cafwyd rhywfaint o adborth cychwynnol a chaiff hwn ei ddefnyddio'n rhan o'r ystyriaethau ynghylch datblygu Llwybr 2. Anogwyd pawb a oedd yn bresennol i siarad â'u rhwydweithiau i gasglu adborth ac i gyflwyno'r adborth hwn i Taith erbyn [8] Mehefin 2022.<br><br>Y gobaith oedd y gellid bod wedi trafod cynlluniau ar gyfer Llwybr 3, ond oherwydd cyfyngiadau amser, nid oedd hyn yn bosibl gan fod angen casglu mwy o ddata. | **Cynghori ar flaenoriaethau ychwanegol y dylid mynd i'r afael â hwy wrth ddatblygu polisïau ar gyfer Llwybr 2.**<br><br>**Gofynnir i Aelodau'r Bwrdd Cynghori a chynrychiolwyr y Cyrff SOB roi adborth ar bapur cynllun Llwybr 2 erbyn dydd Mercher[8] Mehefin.** |
| **Adolygiad o Lywodraethu Taith** | Roedd rhan olaf y cyfarfod yn gyfle i gynrychiolwyr o'r Good Governance Institute gyflwyno eu hunain a rhoi gwybod i bawb am eu perthynas waith â Taith.<br><br>Trafodwyd cwestiynau'n ymwneud â'r adolygiad o lywodraethu a chynghorwyd aelodau'r Bwrdd Cynghori i drefnu cyfarfodydd 1:1 gyda'r GGI er mwyn datblygu hyn ymhellach. | **Gofynnir i Aelodau'r Bwrdd Cynghori roi adborth ar gwestiynau'r GGI a threfnu'r cyfarfodydd 1:1 i drafod llywodraethu. Bydd GGI yn cysylltu â'r rheini a oedd yn bresennol yn uniongyrchol.** |

| | | |
|---|---|---|
| **Unrhyw Fater Arall** | Cafwyd cyfle ar y diwedd ar gyfer trafodaethau UFA a chodwyd rhai pryderon ynghylch Llwybr 1 a fydd yn cael eu hadolygu gan Taith. Cafwyd sylw terfynol i roi gwybod y bydd cylchlythyrau Taith yn eu lle ym mis Medi i helpu i gefnogi'r broses gyfathrebu a gellir defnyddio hyn yn llwyfan i helpu i rannu gwybodaeth am gwestiynau manylach sy'n ymwneud â'r rhaglenni. | **Mae'n rhaid i gylchlythyrau fod yn eu lle unwaith y bydd Swyddog Cyfathrebu newydd Taith yn ymuno â'r tîm ym mis Medi.** |
| **Dyddiad y cyfarfod (rheolaidd) nesaf** | 30 Mehefin 2022 | |